

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Committee Room 4 – Tŷ Hywel	Sian Thomas
Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mehefin 2017	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6291
Rhag-gyfarfod Aelodau: 09.00	Seneddlechyd@cynulliad.cymru
Amser: 09.15	

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 – 09.15)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Ymchwiliad i ofal sylfaenol – sesiwn dystiolaeth 10 – Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(09.15 – 10.45)

(Tudalennau 1 – 59)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Grant Duncan, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru
Dr Richard Lewis, Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

Ymchwiliad i ofal sylfaenol – gwybodaeth ychwanegol gan Pen Y Bont Health

(Tudalennau 60 – 61)

Ymchwiliad i ofal sylfaenol – gwybodaeth ychwanegol gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru

(Tudalennau 62 – 64)



**Ymchwiliad i ofal sylfaenol – gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Lleol
Addysgu Powys am gyllid ar gyfer datblygu clystyrau**

(Tudalennau 65 – 66)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**5 Ymchwiliad i ofal sylfaenol – trafod y dystiolaeth a'r prif faterion
sy'n deillio o'r gwaith craffu.**

(10.45 – 11.30)

6 Ymchwiliad i recriwtio meddygol – trafod yr adroddiad drafft (2)

(11.30 – 12.00)

(Tudalennau 67 – 128)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ofal sylfaenol

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw model cymdeithasol o iechyd a llesiant, ble mae gan bobl fynediad cyfartal i'r mwyafrif o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mor agos â phosibl at eu cartrefi. Nodir hyn yn *Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru (2014)*, a ategir gan gronfa genedlaethol gwerth £43 miliwn ar gyfer gofal sylfaenol.

Yn y dystiolaeth yn yr adolygiad cyflym o lenyddiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Gofal Sylfaenol yng Nghymru – y dyfodol (Ebrill 2014)*, nodir bod cynllunio'n fwy effeithiol pan gaiff ei wneud ar lefel leol iawn ar sail poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000. Mae'r egwyddorion sy'n gosod y seiliau ar gyfer newid a gwella fel a ganlyn:

- Cydweithredu rhwng cynllunwyr a darparwyr gofal;
- Atal, ymyrraeth gynnar a gwella iechyd a llesiant – nid triniaethau'n unig;
- Gofal wedi'i gydlynu, ble mae cyffredinolwyr yn gweithio'n agos ag arbenigwyr;
- Y cyhoedd, cleifion a gofalwyr yn chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau am ofal a llesiant; a
- Gofal iechyd darbodus.

Yn wreiddiol, datblygu clystyrau o feddygfeydd oedd y prif gatalydd dros newid ar y lefel tra lleol hon o gynllunio. Drwy'r cynllun cenedlaethol gofal sylfaenol, mae gweithio mewn clystyrau bellach yn symud y tu hwnt i gasgliad o feddygfeydd, ac yn datblygu'n drefniadau llawn. Mae clystyrau gofal sylfaenol yn cwmpasu fwyfwy yr ystod lawn o asiantaethau, gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau ac adnoddau cymunedol yn cydweithredu i wella canlyniadau iechyd a llesiant dros eu cymunedau.

Mae'r dull amlbroffesiwn, amlsector hwn, gyda'r meddyg teulu wrth ei galon, yn un hyblyg ac ymatebol i anghenion unigol pobl. Mae'n galluogi gofal sylfaenol i reoli amgylchiadau newidiol a gofynion cynyddol wrth i boblogaeth Cymru gyfyndu a heneiddio.

Roedd adolygiad 2016 yr OECD o systemau iechyd y DU yn gadarnhaol iawn ynghylch polisi Llywodraeth Cymru ar gydweithredu mewn clystyrau i gynllunio a chyflwyno gofal ac ynghylch potensial y polisi i ysgogi newid a gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig hon wedi'i strwythuro o amgylch yr wyth maes ymholiad a bennwyd gan y Pwyllgor, gan glystyru'r cwestiynau pan fo hynny'n gwneud synnwyr. Mae'n adlewyrchu'r heriau sy'n cael sylw yn ogystal â'r cynnydd a wneir.

Maes ymholiad 1

Sut y gall rhwydweithiau clwstwr meddygon teulu yng Nghymru helpu i leihau'r galw ar feddygon teulu ac i ba raddau y gall clystyrau ddarparu llwybr mwy hygyrch at ofal (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol).

a

Maes ymholiad 2

Y tîm amlddisgyblaethol sy'n dod i'r amlwg (sut y mae'r gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal yn perthyn i'r model clystyrau newydd a sut y gellir mesur eu cyfraniad).

Mae'r cynllun cenedlaethol gofal sylfaenol yn rhoi cyfeiriad strategol i'r gwaith o ddylunio a chyflwyno gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol er mwyn eu bod yn cyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau lleol.

Mewn ymateb i'r galw cynyddol yn yr hyn a oedd yn draddodiadol yn fodel meddygol, ar y cyfan, o ofal cyffredinol gan y meddyg teulu, mae amrywiaeth o ffurfiau sefydliadol ar gyfer cyflwyno gofal cynaliadwy a hygyrch yn esblygu allan o weithio mewn clystyrau ar draws Cymru. Mae'r modelau hyn yn amrywio o ran eu seilwaith, eu buddion a'r lefel o integreiddio, cyflogi staff, trefniadau contractiol, ac arbedion maint, rheolaeth ariannol, hyblygrwydd a systemau cymorth mewnol sy'n ymatebol i amgylchiadau lleol.

Ymysg y modelau mae "arch-feddygfeydd teulu", mentrau cydweithredol, partneriaethau corfforaethol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cyfyngedig a ffederasiynau. Mae'r ffederasiwn o feddygfeydd teulu ym Mhen-y-bont a'r fenter gymdeithasol Red Kite yng nghlwtwr De Powys yn ddwy enghraifft. Mae'r ddau yn rhan o'r rhaglen genedlaethol o brosiectau braenaru a phennu cyflymder.

Mae'r hyn a ddysgir o'r rhaglen genedlaethol hon o brosiectau braenaru a phennu cyflymder yn rhoi tystiolaeth o'r potensial ar gyfer cydweithredu drwy weithio mewn clwstwr i reoli'r galw cynyddol ar wasanaethau meddygon teulu drwy ddatblygu timau darbodus, amlbroffesiwn. Mae hyn naill ai drwy'r modelau mwy ffurfiol sy'n dod i'r amlwg neu drwy hyrwyddo mwy o gydweithredu. Yn gynyddol, gall gweithio mewn clwstwr hwyluso gwaith rhwng grwpiau o feddygfeydd teulu a gwasanaethau meddygon teulu, gan osod a defnyddio staff ac adnoddau mewn trefniadau mwy effeithlon gan ddarparu gwasanaethau mwy cyson.

Er enghraifft, mae fferyllwyr, ffisiotherapyddion a gweithwyr cymdeithasol yn cael eu penodi fwyfwy i gynnig cefnogaeth ar draws poblogaeth y clwstwr, gan weithio ochr yn ochr â thimau meddygfeydd teulu unigol. Mae enghreifftiau ble mae fferyllwyr a ffisiotherapyddion yn hyfforddi i allu rhoi presgripsiynau.

Mae'r model hwn o dîm estynedig gofal sylfaenol cyffredinol yn arwain at well mynediad gan sicrhau y caiff pobl eu cyfeirio at y gweithiwr proffesiynol cywir

o fewn y tîm heb oedi diangen. Mae hefyd yn rhyddhau capasiti meddygon teulu i wella mynediad ar gyfer y rhai hynny sydd angen gweld meddyg teulu, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi adrodd bod fferyllwyr wedi arbed 1842 o oriau meddygon teulu mewn cyfnod o 3 mis.

Mae mwy a mwy o dystiolaeth o effaith gadarnhaol parhad gofal, sydd, yn ôl astudiaethau, yn bwysig i bobl, mewn perthynas ag osgoi galw diangen ar ofal heb ei drefnu. Mae adroddiadau diweddar gan y Health Foundation a'r British Medical Journal yn cyfeirio at dystiolaeth bod parhad gofal gyda'r un meddyg teulu i'r bobl hynny sydd â sawl cydafiachedd cymhleth ac sy'n gwneud defnydd mawr o'r gwasanaethau gofal sylfaenol yn lleihau derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer y grŵp hwnnw. Gyda dyfodiad dulliau timau amlbroffesiwn ar gyfer gofal, bydd yn bwysig sicrhau ar lefel ymarfer cyffredinol bod hanfodion sicrhau parhad da o ran gofal, fel rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhagorol o fewn y tîm, ar waith er mwyn osgoi tansellio'r cyfleoedd i gynnal parhad. Bydd yn bwysig monitro'r gronfa gynyddol o dystiolaeth ac ystyried cyfleoedd ar lefel clwstwr wrth gynllunio gwasanaethau.

Mae llwyddiant model y rhith-ward ym Mhowys wrth osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty yn dra hysbys. Mae nifer o enghreifftiau eraill o fodelau tebyg ar draws Cymru. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae nifer o glystyrau wedi creu swyddi nyrsio i helpu i gefnogi'r bobl fwyaf eiddil, oeddrannus ac agored i niwed ar draws poblogaeth y clwstwr. Mae'r ffordd hon o gyflwyno gofal, sydd wedi'i lifinio a'i gydlynu, o fewn y clwstwr yn elwa ar yr arbedion maint a wneir drwy weithio ar draws poblogaeth y clwstwr yn hytrach nag ar sail poblogaeth meddygfeydd teulu unigol.

Mewn enghreifftiau eraill, mae fferyllwyr a nyrsys eiddilwch yn y clwstwr yn mynd i gartrefi gofal i adolygu gofal y preswylwyr gyda'r nod o optimeiddio'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu rheoli, atal digwyddiadau clinigol y gellid eu hosgoi a lleihau cyfeiriadau a derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae clwstwr De Sir Benfro wedi buddsoddi mewn fferyllwyr clwstwr i gynnal adolygiad o gleifion cartrefi gofal ar gyfer pob meddygfa. Rhoddwyd adroddiad ym mis Mawrth 2017, ac mae hyn wedi arwain at arbedion o £6,800 mewn meddyginiaethau a ataliwyd. Bydd y gwasanaeth cyfeiriedig estynedig newydd ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal, y cytunwyd arno gyda GPC Cymru fel rhan o gontract cenedlaethol gwasanaethau meddygol cyffredinol 2017-18, yn datblygu gofal rhagweld amlbroffesiwn cydgysylltiedig ymhellach.

Mae'r rhaglen genedlaethol o brosiectau braenaru a phennu cyflymder yn dangos gwerth systemau brysbennu clinigol dros y ffôn sydd â'r potensial i wella mynediad a rheoli'r galw ar feddygon teulu drwy gyfeirio pobl at y gweithiwr proffesiynol priodol o fewn y tîm amlbroffesiwn. Mae hyn yn rhyddhau amser meddygon teulu.

Mae amrywiaeth o fodelau brysbennu a thrin galwadau yn dod i'r amlwg i weddu i wahanol glystyrau a phoblogaethau o gleifion. Y mwyaf cyfarwydd, o bosibl, yw'r un sy'n cwmpasu'r meddygfeydd teulu yng nghlwstwr Castell-nedd. Ymddengys bod caniatáu i wahanol fodelau esblygu, gan sicrhau

canlyniadau a fframweithiau llywodraethu wedi'u safoni, yn effeithiol ac mae potensial i feddygon teulu ddarparu systemau brysbennu o bell o'u cartrefi.

Mae cynllunio ar lefel y clwstwr yn ffordd dda o bennu camau gweithredu, a'u rhoi ar waith, ar gyfer arwain pobl oddi wrth feddygon teulu tuag at y gwasanaethau y gallant gael gafael arnynt yn uniongyrchol drostynt eu hunain, fel y gwasanaeth mân anhwylderau gan fferyllwyr cymunedol. Mae'r adroddiadau diweddaraf (Ebrill 2017) ar y cynllun mân anhwylderau, sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ar draws Cymru, yn dangos bod 85% o'r cleifion a gyrchodd y gwasanaeth mân anhwylderau wedi adrodd y byddent wedi mynd at eu meddyg teulu neu eu gwasanaeth Tu Allan i Oriau pe na bai'r gwasanaeth wedi bod ar gael gan eu fferyllfa gymunedol. Gall deintyddion ac optometryddion weld a thrin problemau y mae pobl, serch hynny, yn mynd at eu meddyg teulu yn eu cylch. Yng nghlystyrau Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint a Chwmtawe, mae awdiolegwyr bellach yn gweld pobl heb fod angen i feddyg teulu eu gweld yn gyntaf.

Mae gan bob clwstwr, wrth iddo aeddfedu, y potensial i alluogi a chefnogi gofal cydgysylltiedig ar draws y system iechyd a gofal. Gall y clwstwr weithio gyda chydweithwyr mewn ysbytai i ddatblygu llwybrau gofal newydd a gwell defnydd o dechnoleg, gan atgyfeirio ond pan fo'n hanfodol a dychwelyd pobl i ofal y tîm gofal sylfaenol cyn gynted â phosibl. Gall timau amlbroffesiwn a rolau proffesiynol newydd gyfrannu'n sylweddol at gynaliadwyedd gofal sylfaenol, a hefyd gael effaith ar y galw a'r pwysau, na welwyd eu tebyg o'r blaen, ar wasanaethau gofal wedi eu trefnu a heb eu trefnu yn y cyd-destun aciwt.

Mae clwstwr De-orllewin Caerdydd wedi herio'r model traddodiadol ar gyfer cleifion allanol pediatrig ac wedi datblygu un newydd. Gall meddygon teulu bellach gyfathrebu drwy e-bost gyda phediatryddion ymgynghorol am gyngor ac mae'r pediatrydd ymgynghorol yn cynnal clinig o fewn meddygfa deulu yn y clwstwr. Caiff cynlluniau gofal eu datblygu ar y cyd rhwng y pediatrydd, y meddyg teulu a'r tîm gofal sylfaenol ehangach, a'u cefnogi gan gyfarfodydd tîm ar ôl pob clinig.

O ran gwella mynediad ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, mae gweithio mewn clystyrau yn cynnig ffordd ragorol i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector ddod at ei gilydd i gynllunio'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol sy'n ofynnol o dan ran 1 o'r Mesur Iechyd Meddwl sy'n eistedd ochr yn ochr â gwasanaethau meddygon teulu.

Mae ymwybyddiaeth gynyddol o fanteision yr amrywiaeth eang o 'wasanaethau lles' anghlinigol, yn enwedig i bobl sydd angen cymorth ar gyfer eu lles meddyliol. Mae enghreifftiau ble mae clystyrau wedi cyflwyno systemau rhagnodi cymdeithasol fel bod pobl yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn fwy systematig.

Yng Nghwm Taf, mae cynllun lle y gall meddygon teulu atgyfeirio pobl ag anghenion iechyd meddwl llai dwys at Valley Steps, darparwr trydydd sector

technegau ymwybyddiaeth ofalgar a hyfforddiant rheoli straen. Mae'r cynllun hwn yn gwerthuso'i effaith ar lefelau'r presgripsiynau ar gyfer meddyginiaethau gwrth-iselder.

Mae clystyrau yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Phowys wedi bod yn gweithio gyda MIND i ddatblygu gwasanaethau lleol. Mae clwstwr Deddwyrain Caerdydd wedi bod yn gweithio gyda MIND Caerdydd i gefnogi cleifion sydd â chyflyrau iechyd meddwl llai dwys ac adroddodd ddiwedd mis Mawrth eleni bod 192 o bobl wedi cael cymorth gan MIND ers canol Rhagfyr 2016.

Mae rhai clystyrau'n buddsoddi mewn swyddi i gysylltu pobl yn systematig â'r ystod eang o ofala chymorth anghlinigol sydd ar gael yn lleol. Ceir amrywiaeth o ran y derminoleg: gelwir rhai swyddi yn gysylltwyr cymunedol ac eraill yn weithwyr cyswllt. Mae clystyrau Torfaen wedi penodi cydlynwyr rhagnodi cymdeithasol sy'n gweithio gyda meddygfeydd teulu i fynd i'r afael â materion llesiant sy'n achosi i bobl geisio gwasanaethau clinigol. Mae hyn wedi golygu bod lles meddyliol pobl sy'n cael mynediad i gyngor am gyllid a thai wedi gwella ac mae hynny, yn ei dro, wedi lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu.

Bydd cyflwyno'r rhif ffôn 111 cenedlaethol, y wefan gysylltiedig a'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdod lleol, wedi'u hategu gan gyfeiriadur cenedlaethol o wasanaethau, yn helpu i gysylltu pobl â'r amrywiaeth o wasanaethau llesiant sydd ar gael yn lleol. Bydd ymrwymïadau Llywodraeth Cymru yn *Symud Cymru Ymlaen* i gynllun peilot rhagnodi cymdeithasol ar gyfer cael gafael ar gymorth iechyd meddwl a bond llesiant i gyd yn cefnogi mynediad mwy systematig i bobl ymhellach.

Yn hanfodol, ac yn gyffredin i'r holl enghreifftiau hyn o newid, mae'r angen i gynnwys a gweithio gyda chymunedau lleol, teuluoedd ac unigolion mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae hyn yn helpu i esbonio'r newidiadau a'r rhesymeg y tu ôl iddynt ac i gefnogi pobl i wybod sut a ble i gael gafael ar wasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru bob amser yn atgyfnerthu ei disgwyliad wrth bob bwrdd iechyd y dylai fabwysiadu dull system gyfan ar gyfer monitro perfformiad a chynaliadwyedd. O ran mesur effaith newid mewn gofal sylfaenol, cyfyngedig yw'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd ar ganlyniadau pobl a'u profiadau o ofal sylfaenol. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn mesur bodlonrwydd pobl ar rai agweddau, gan gynnwys eu bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth gan eu meddyg teulu a gyda'r broses gwneud apwyntiadau.

Er mwyn monitro a meincnodi gofal sylfaenol, mae'r byrddau iechyd gyda'i gilydd wedi cytuno ar set gyntaf o fesurau ar gyfer ansawdd gofal sylfaenol ac ar gyfer sut caiff ei gyflwyno, ac mae'r byrddau bellach yn defnyddio'r mesurau hyn. Mae ail set o fesurau, sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a phrofiadau, yn cael ei llunio ar hyn o bryd. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi datblygu porth cenedlaethol i goladu perfformiad yn erbyn y mesurau hyn.

Yn ogystal, mae Cymru bellach yn cymryd rhan mewn gwaith newydd sy'n cael ei ddatblygu gan yr International Consortium of Health Outcomes Measures a ddylai bennu sut i fesur effaith gofal sylfaenol ar bobl.

Am nawr, caiff cyfraniad y gwasanaeth gofal sylfaenol a ragwelwyd yn y cynllun cenedlaethol gofal sylfaenol ei fesur i raddau helaeth gan yr effaith ar y gwasanaeth, fel y nifer o oriau meddygon teulu a arbedir a'r gostyngiad yn y nifer o dderbyniadau i'r ysbyty heb eu cynllunio. Mae'r data diweddaraf yn dangos y bu gwelliannau yn y gyfradd bob 100,000 o'r boblogaeth yn 2016 mewn perthynas â derbyniadau brys ac aildderbyniadau brys o fewn blwyddyn ar gyfer pobl sydd â chyflyrau cronig penodol, fel diabetes a chlefydau anadlol.

Maes ymholiad 3

Yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu presennol a'r gweithlu yn y dyfodol.

Er mwyn sicrhau system iechyd gynaliadwy ac effeithiol, sy'n gallu ymateb i anghenion pobl yn agos at eu cartrefi nawr ac yn y dyfodol, yr her yw creu'r gymysgedd angenrheidiol o ran sgiliau a gweithlu i greu timau darbodus, amlbroffesiwn, integredig.

Mae cynllunio gweithlu cadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall cleifion gael gafael ar y gwasanaethau priodol sydd eu hangen arnynt a bod sefydliadau'n cydweddu'u cyllid gyda'u blaenoriaethau. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig gynnwys cynlluniau gweithlu sy'n sicrhau timau gofal sylfaenol aml-sgil sydd â'r gallu a'r capasiti priodol, a ble mai'r gweithwyr proffesiynol mwyaf priodol sy'n cyflwyno'r gofal.

Mae Cynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol cyntaf Cymru (2015) yn amlinellu'r camau gweithredu yn genedlaethol ac yn lleol sydd eu hangen i ddatblygu a buddsoddi yn y gweithlu, gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys a therapyddion practis a chymunedol, fferyllwyr, gweithwyr cymorth gofal iechyd, parafeddygon a staff clinigol arall er mwyn rhoi mwy o ofal yn agosach at y cartref.

Yn ogystal â chefnogi gweithio mewn clystyrau, mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau i sefydlogi rhannau craidd o'r gweithlu, gan gynnwys meddygon teulu a nyrsys, drwy gefnogi pobl sydd eisiau aildechrau ymarfer neu weithio'n rhan-amser; drwy archwilio sut y gellid annog hyfforddi a gweithio mewn ymarfer cyffredinol ble mae'r angen mwyaf a thrwy gyfleu pa gyfleoedd y mae ymarfer cyffredinol yng Nghymru yn eu cynnig.

Er mwyn monitro'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithlu cenedlaethol ac ymgymryd â gwaith sydd orau o'i wneud unwaith yng Nghymru, mae cyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl byrddau iechyd a chyfarwyddwyr y gweithlu a datblygu sefydliadol ar y cyd wedi sefydlu Grŵp

Gweithlu Gofal Sylfaenol. Mae'r grŵp hwn yn goruchwyllo hyfforddiant ar gynllunio'r gweithlu ar lefel y clwstwr, casgliad o fodolau gweithlu ac o rolau newydd a'r hyn a wneir mewn perthynas â sut y gellir gwella prosesau recriwtio byrddau iechyd er mwyn cefnogi arloesedd ac ailddylunio mewn gofal sylfaenol.

Er mwyn darparu gofal i'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymunedau lleol, a hwnnw'n ofal sy'n canolbwyntio ar atal a rhagweld, mae angen i fyrddau iechyd ddenu mwy o weithwyr proffesiynol i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru. I arwain ar hyn, rwy'n cadeirio'r Tasglu Gweinidogol ar y Gweithlu Gofal Sylfaenol.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch farchnata genedlaethol ym mis Hydref 2016 i recriwtio mwy o feddygon, gan gynnwys meddygon teulu. Mae cam 2 yr ymgyrch, a lansiwyd ar 8 Mai, yn targedu nyrsys i weithio mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a'r sector cartrefi gofal. Bydd camau'r ymgyrch yn y dyfodol yn targedu fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig.

Un elfen bwysig o gam cyntaf yr ymgyrch oedd targedu meddygon sydd ar fin dewis a chychwyn ar eu hyfforddiant arbenigol yn 2017. Fel rhan o becyn cynnig Cymru a oedd yn sail i'r ymgyrch, bydd pob meddyg teulu dan hyfforddiant yn cael cyllid tuag at ffioedd eu harholiadau terfynol. Bydd hyfforddeion sy'n gwneud eu hyfforddiant yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd wedi'i chael yn anodd recriwtio yn draddodiadol, yn cael cymhelliad ariannol pellach. Bydd hyfforddeion sy'n cymryd lleoliad hyfforddi mewn ardal benodedig yn gynnwys am daliad o hyd at £20,000.

Mae'r ymgyrch a'r cymelliadau cysylltiedig wedi gweld rhai llwyddiannau cynnar, yn arbennig mewn perthynas â'r rhai sy'n dewis Cymru i gychwyn ar eu hyfforddiant. Ar hyn o bryd, 84% yw'r nifer o leoliadau hyfforddiant meddygon teulu sydd wedi'u llenwi ar ddiwedd y rownd gyntaf o recriwtio ar gyfer hyfforddiant arbenigol i feddygon teulu, ffigur sy'n uwch na'r gyfradd llenwi o 68% yn ystod y cyfnod hwn y llynedd. Disgwylir y bydd y gyfradd llenwi hon wedi cynyddu eto erbyn diwedd y broses.

Er mwyn dal gafael ar sgiliau ac arbenigedd y gweithlu presennol o feddygon teulu, mae'r byrddau iechyd yn cynnig portffolios a phatrymau gwaith cynyddol hyblyg a deniadol.

Mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu gofal sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £95 miliwn yn 2017-18 i gefnogi addysgu gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cefnogi nyrsys, ffisiotherapyddion, radiograffyddion ac amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi yn y gwyddorau iechyd ac yn galluogi dros 3000 o fyfyrwyr newydd i ymuno â'r rhai sydd eisoes yn astudio rhaglenni addysg iechyd ar draws Cymru.

Mae £0.5 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer cefnogi ymarfer uwch, addysg a hyfforddiant sgiliau estynedig mewn gofal sylfaenol. Bydd cynnydd sylweddol hefyd mewn addysg ar gyfer nyrsys practis a nyrsys ardal, yn ogystal â llefydd hyfforddi awdioleg o fewn cyd-destunau sylfaenol a chymunedol.

Maes ymholiad 4

Y cyllid sy'n cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i glystyrau er mwyn galluogi practisau meddygon teulu i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio; sut y mae arian yn cael ei ddefnyddio i leihau'r pwysau ar bractisau meddygon teulu, gwella gwasanaethau a'r mynediad sydd ar gael i gleifion.

Mae'r clystyrau gofal sylfaenol wedi defnyddio'u cyfran o'r £10 miliwn o'r gronfa genedlaethol gofal sylfaenol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r £10 miliwn yn swm rheolaidd ac mae sawl clwstwr yn buddsoddi mewn capasiti ychwanegol fel fferyllwyr, ffisiotherapyddion a gweithwyr cymdeithasol, fel y disgrifiwyd uchod.

Mae clwstwr De Sir Benfro yn buddsoddi mewn rolau newydd cynghorwyr byw'n iach er mwyn gwneud cysylltiadau rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol, y trydydd sector, cysylltwyr cymunedol, eiriolwyr byw'n iach, a thimau iechyd meddwl, timau iechyd y cyhoedd, ysgolion, cyfryngau lleol, parciau cenedlaethol a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, ac er mwyn optimeiddio amser ac arbenigedd y rhain. Mae'r cynghorwyr newydd hyn wedi cynnal ymarferion ymgysylltu â chleifion ym mhob un o'r meddygfeydd teulu er mwyn arddangos y prosiect.

Mae clwstwr Gogledd Sir Benfro wedi buddsoddi mewn hwyluswyr nyrsio i weithio gyda meddygfeydd teulu i bennu'r bobl hynny y gallai cynllunio gofal estynedig fod fwyaf perthnasol iddynt, ar fyrder. Mae'r nyrsys hyn wedyn yn gweithio gyda'r bobl hynny i gytuno ar gynlluniau gofal. Mae cofnodion meddygfeydd teulu'n dangos bod y nifer o bobl y cytunwyd ar gynllun gofal ar eu cyfer wedi cynyddu 219% o 74 i 162 ers cychwyn y prosiect ym mis Mawrth 2017.

Mae clwstwr Castell-nedd wedi buddsoddi mewn gofal a chymorth mwy rhagweithiol ar gyfer pobl sydd wrth risg o ddatblygu diabetes math 2 ac mae wedi gweld cynnydd yng nghanran y bobl sy'n cael cymorth, o 22.7% i 64% yn y 15 mis hyd fis Mawrth 2016.

Mae clwstwr Merthyr wedi buddsoddi mewn sefydlu platfform TG Econsult ar wefan pob meddygfa deulu. Mae hyn yn cynnig ymgynghoriad dros e-bost i gleifion. Mae un feddygfa wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers dros 11 mis ac wedi adrodd eu bod yn amcangyfrif bod cyfartaledd 22.4 o apwyntiadau meddyg teulu yr wythnos wedi'u harbed yn y pum mis hyd fis Mawrth 2016.

Penderfynodd clwstwr De Wrecsam wella cyfraddau brechu rhag y ffliw ar gyfer y boblogaeth drwy fuddsoddi mewn clinigau ychwanegol y tu allan i'r oriau agor arferol. Adroddodd y clwstwr, ar ddiwedd mis Mawrth eleni, ei fod wedi cyflawni cyfradd frechu o 72% ar gyfer pobl 65 oed a throsodd.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru'r £10 miliwn i fyrddau iechyd fel rhan o'u dyraniadau refeniw blynyddol. Er mwyn hyrwyddo gweithio mewn clystyrau ac osgoi arloesi gormodol, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl byrddau iechyd i droedio'n ysgafn wrth reoli'r cyllid hwn ac i wneud popeth y gallant i gefnogi'r gwaith o lunio a gweithredu cynlluniau gwariant ar lefel y clwstwr. Lle nad yw clystyrau wedi gallu gwario'u cyfran lawn o'r cyllid mewn blwyddyn ariannol, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth fyrddau iechyd bod yn rhaid buddsoddi unrhyw danwariant mewn gofal sylfaenol ac wedi gofyn iddynt ystyried darparu'r cyllid hwn i glystyrau unwaith eto yn y flwyddyn ganlynol.

Mae gweithio mewn clystyrau yn gymharol newydd o hyd ac mae'n esblygu ar draws Cymru. Bu heriau i'w datrys, fel llunio a chytuno ar gynlluniau gwariant yn gynnar yn y flwyddyn er mwyn optimeiddio gwariant, a chyflymder prosesau recriwtio a chaffael. Bydd heriau eraill a heriau newydd. Er enghraifft, wrth i glystyrau dynnu mwy o wasanaethau lleol i mewn, bydd mwy o syniadau ynghylch sut i fuddsoddi a mwy o heriau i'r status quo a all fod yn anodd eu datrys.

Trydedd flwyddyn y broses yw'r flwyddyn ariannol hon, a dylai fod yn flwyddyn rwyddach gyda'r cynlluniau gwariant mewn lle a phobl yn eu swyddi o'r cychwyn cyntaf a'r clystyrau'n gallu gweld fwyfwy y canlyniadau a fwriadwyd o'u penderfyniadau buddsoddi yn cael eu cyflawni.

Maes ymholiad 5

Heriau o ran llwyth gwaith a'r newid i atal sylfaenol yn y gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth a thargedu anghydraddoldebau o ran iechyd.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Llywodraeth Cymru yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn glir ynghylch symud tuag at gydweithredu er mwyn cynllunio a darparu mwy o ofal ataliol wedi'i gydgyhyrchu er mwyn helpu i gynnal y system iechyd a gofal nawr ac yn y dyfodol. Mae'r pwyslais hwn ar atal yn cynnwys diogelu gofal a chymorth anghlinigol ar gyfer llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Gall y contractau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth gymunedol a deintyddiaeth fod yn arfau ar gyfer arwain y symudiad hwn tuag at atal.

Mae atal yn gysyniad eang. Gellir disgrifio llawer o'r gwaith a wneir eisoes mewn gofal sylfaenol fel atal eilaidd, a ddiffinnir fel gweithgaredd sydd â'r nod o atal datblygiad afiechyd ar ôl iddo ymsefydlu drwy ei ganfod yn gynnar ac yna drwy driniaeth effeithiol brydlon. Mae symud mwy o adnoddau i ofal sylfaenol yn caniatáu mwy byth o dargedu ymdrechion a gwaith allgymorth sy'n galluogi mwy o ymyrraeth gynnar. Er enghraifft, drwy'r gronfa genedlaethol gofal sylfaenol, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn cynlluniau braenaru ym Myrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf er mwyn lleihau anghydraddoldeb yn nisgwyliad oes pobl sy'n byw mewn ardaloedd clwstwr mwy difreintiedig.

Mae'r cynlluniau hyn wedi rhoi ar brawf ffyrdd newydd o adnabod pobl sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd a ffyrdd newydd o gytuno ar gamau gweithredu gyda nhw i leihau'r risg hwn. Ym mis Mawrth 2017, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod cyfanswm o 9,000 o bobl wedi cael eu hasesu ar draws y 4 clwstwr dan sylw. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ym mis Chwefror 2016 fod dros 2,000 o bobl wedi cael eu hasesu ar draws y 7 practis meddyg teulu a oedd yn cymryd rhan yn y cynlluniau.

Caiff yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau braenaru hyn ei rannu gyda'r byrddau iechyd eraill drwy fwrdd rhaglen cenedlaethol i lywio'u cynlluniau gwella gwasanaethau.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae dau glwstwr bellach yn rhedeg cynlluniau i danlinellu i bobl y manteision o wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er mwyn rheoli'u risg o ddatblygu diabetes math 2.

Mae'r contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol a'r contractau fferylliaeth gymunedol wedi'u defnyddio i alluogi gofal sylfaenol rhagweithiol i breswylwyr cartrefi gofal er mwyn atal derbyniadau diangen i'r ysbyty ac adolygu gofal pobl a ryddhawyd o'r ysbyty'n ddiweddar yn ôl i'w cartrefi gofal. Mae'r grŵp cyflawni cenedlaethol ar gyfer diabetes yn datblygu gwasanaeth cyfeiriedig estynedig ar gyfer gofal ataliol diabetes. Mae atal sylfaenol yn ymwneud â gweithredu i atal afiechyd rhag dal gafael drwy newid rhyw ffactor – fel yr amgylchedd neu ymddygiad – sy'n cael effaith ar ganlyniadau iechyd. Gwyddwn fod mynediad at ofal iechyd ynddo'i hun yn cyfrif am gyn lleied â 10% o iechyd a llesiant y boblogaeth. Dyma pam fod dull cydweithredol ar gyfer iechyd, a ffurfiolwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn allweddol. Mae hyn yn cydnabod bod buddsoddi mewn tai o safon, cryfhau'r cwricwlwm addysg mewn perthynas ag iechyd a llesiant, darparu cyflogaeth dda a sefydlog, cyfleoedd teithio llesol ymysg eraill oll yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd y boblogaeth.

